Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

# Hunangyfeirio at Ffisiotherapi

**Beth ydy hyn?**
Mae'r gwasanaeth ffisiotherapi yn eich ardal yn newid y dull o gyfeirio at y gwasanaeth. Mae hyn yn golygu y bydd cleifion o bractisys meddygol yn eich ardal yn gallu cyfeirio eu hunain yn uniongyrchol am ffisiotherapi heb fod angen llythyr gan feddyg i wneud hynny.

**Pam rydyn ni'n gwneud hyn?**
Er mwyn ceisio gwella a moderneiddio ein gwasanaeth.

**Pryd?**
Mae'r gwasanaeth ar gael yn eich ardal chi erbyn hyn.

**I bwy mae hyn?**
Mae'r gwasanaeth yn agored i oedolion oedran 18+ sydd wedi cael anaf/ yn dioddef o gyflwr cyhyrysgerbydol h.y. unrhyw un sydd mewn poen neu wedi cael anaf sy'n effeithio ar gymalau, cyhyrau a gewynnau naill ai yn y breichiau, y coesau neu'r asgwrn cefn.

**Sut bydd hyn yn gweithio?**
Os ydych yn meddwl bod gennych broblem a fydd yn elwa o ffisiotherapi neu fod eich meddyg wedi awgrymu hyn i chi, yna gallwch gymryd ffurflen gyfeirio o'r fan hyn, ei llenwi gyda'r manylion sydd eu hangen a'i hanfon atom yn yr Adran Ffisiotherapi i'r cyfeiriad isod. Yna byddwn yn darllen y cyfeiriad ac yn penderfynu a yw'ch achos yn un brys neu'n un arferol. Os bydd eich cyfeiriad yn achos brys byddwn yn ceisio cysylltu â chi cyn gynted â phosib i drefnu apwyntiad. Os bydd eich achos yn un arferol, byddwch yn cael llythyr yn gofyn i chi gysylltu â ni i drefnu apwyntiad pan fydd eich enw yn cyrraedd pen y rhestr aros.

Anfonwch y ffurflen i **un** or adranau isod yn unig.
Diolch

**Adran Ffisiotherapi, Ysbyty Bae Colwyn, Rhodfa Bryn, Bae Colwyn, LL29 8AY**
**(Ffon: 01492 807519, facs: 01492 807580)**

***Neu***

**Adran Ffisiotherapi, Ysbyty Llandudno, Ffordd Ysbyty, Llandudno, LL30 1LB**
**(Ffon: 01492 862309, facs: 01492 862304)**